

Ein Nadolig a'n Gaeaf cyntaf yn Nolwyddelan

Pan wnaethom ddychmygu ein Nadolig cyntaf yn Nolwyddelan, roeddem yn rhagweld gorchudd o rew ar lawr y dyffryn, *sŵn clychau'r Eglwys yn atseinio yn yr awyr oer a mygiau o de'n oeri ar y sil ffenest, tra bod glaw – oherwydd dydy glaw byth yn cwmpo'n unig yma, mae'n tywallt – yn tapio ar y gwydr*. Yn lle hynny, fe wnaethom dreulio diwrnod y Nadolig yn Santiago, Chile.

Rhaid oedd inni deithio i ochr arall y byd oherwydd gwaith. Wrth i'r dyffryn sefydlogi i dawelwch y gaeaf, roeddem ni'n sefyll o dan haul Hemisffer y De, yn dathlu'r Nadolig yn ystod yr haf. Er ein bod ni 7,000 milltir i ffwrdd, roeddem yn dal yn cadw llygaid ar dywydd Dolwyddelan. Oedd hi wedi rhewi? Oedd yr afon yn uchel? Oedd y mynyddoedd yn glir? Roedd cerddoriaeth Nadolig i'w glywed yng nghynteddau gwestai, ond roeddem yn dychmygu clywed carolau'n atseinio'n agosach at adref.

Fe wnaethom ddychwelyd i'r gaeaf yn aros amdanom ni. Toeau llechi wedi'u tywyllu gan y glaw. Bryniau wedi'u lapio mewn niwl. Yr afon yn byrlymu ar ôl storm. Nid yw'r gaeaf yma yn addurniadol; mae'n elfennol. Mae goleuni'n werthfawr. Mae coed tân yn annatod. Mae bore clir yn teimlo fel rhodd.

Yna mae mis Ionawr yn darparu'r hyn y mae pob dyffryn yn gobeithio amdano – eira.

Eira prydferth, fasa'n edrych yn ddelfrydol ar gerdyn post.

Fe wyddom hyn oherwydd fe wnaethom ni ei golli.

Tra'r oeddem i ffwrdd eto ar gyfer gwaith, bu i Ddolwyddelan drawsnewid i fod yn Narnia am gyfnod byr. Fe gyrhaeddodd y lluniau: toeau gwyn, awyr las bendigedig, Moel Siabod yn sefyll gyda balchder. Roeddem ni'n teimlo siom aruthrol. Yn y bôn, mae'r ymdeimlad o berthyn yn golygu awydd o fod ymhlith yr eira, nid ei edmygu o bell yn unig.

Unwaith inni ddygymod â'r siom hwnnw, bu digwyddiad annisgwyl arall yn y pentref – cafodd fferm canabis sylweddol ei ganfod. Nid y ddelwedd ddelfrydol cefn gwlad ar gyfer llyfryn. Ond bu i'r trigolion ymdrin â hyn yn ddifffwdan yn ogystal: codi aelïau, sgysïau ymarferol a bywyd yn mynd rhagddi.

Dyma beth wnaethom ni ei ddysgu o ganlyniad i'n gaeaf gyntaf yn Nolwyddelan: mae gormod o ganmol i berffeithrwydd. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ydy rhythm, cymuned a'r anadl ddistaw rydych chi'n ei deimlo wrth i'r dyffryn eich cofleidio ar eich taith adref.

Doedden ni ddim yn ymweld.

Roeddem yn dychwelyd adref.

Fe wnaethon ni ddisgyn mewn cariad gyda Dolwyddelan yn yr haf.

Fe wnaethom deimlo ymdeimlad o berthyn yn Nolwyddelan yn y gaeaf.

Lloyd C. Mason-Boardman